# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

**2010 mccc 4**

**20 Enw Byr a Chychwyn**

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur **[**[F1]Senedd**]** Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

(2) Daw adrannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 12, 17, 18 a'r adran hon i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor.

(3) Daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn i rym drannoeth y diwrnod y gosodir hysbysiad o dan is-adran (4) gerbron y **[**[F1]Senedd**]** .

(4) Rhaid i'r Clerc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i benodiadau cyntaf Cadeirydd a phedwar aelod arall y Bwrdd i gyd gael eu gwneud, osod gerbron y **[**[F1]Senedd**]** hysbysiad—

- (a) o'r ffaith bod y penodiadau o dan sylw wedi'u gwneud,
- (b) o enwau'r personau a benodwyd, a
- (c) o'r ffaith y daw holl ddarpariaethau'r Mesur hwn (heblaw'r rhai sydd eisoes mewn grym) i rym drannoeth y diwrnod y gosodir yr hysbysiad a hynny am fod yr hysbysiad yn cael ei osod.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 20 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, Adran 20.